**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee inquiry into the general principles of the Tertiary Education and Research (Wales) Bill**

**TER 28**
**Ymateb gan: Comisiynydd Plant Cymru**
**Response from: Children's Commissioner for Wales**

---

**Gwybodaeth gefndirol am Gomisiynydd Plant Cymru.**

Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Wrth arfer eu swyddogaethau, mae'n rhaid i'r Comisiynydd ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn). Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd yn cynnwys pob maes o rymoedd datganoledig Senedd Cymru sy'n effeithio ar hawliau a lles plant.

Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol yw'r Confensiwn, sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r Confensiwn fel sail i'r holl waith llunio polisi ar gyfer plant a phobl ifanc, ac mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyladwy' i'r Confensiwn.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb i'r Ymgynghoriad**

**Trosolwg**

Rwy'n cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil o ran sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Mae'r dyhead i ddatblygu addysg a hyfforddiant effeithiol a chydlynol yn cynnig cyfleoedd gwell i sicrhau addysg a llesiant pobl ifanc, cynyddu cydraddoldeb a lleihau gwahaniaethu drwy sicrhau cydraddoldeb mewn mynediad at addysg ôl-16, a datblygu system lle gall pobl ifanc gyfranogi ac arfer eu hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae fy ymateb yn canolbwyntio ar dair agwedd benodol ar y Bil:

- Cynrychiolaeth dysgwyr, gan gynnwys y rhai o dan 18 oed, yn y Comisiwn
- Anghenion Dysgu Ychwanegol a chysondeb â dyletswyddau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2021
- Rhan 4: Prentisiaethau
- Rhan 5: Amddiffyn dysgwyr, gweithdrefnau cwynion ac ymgysylltu â dysgwyr

**Cynrychiolaeth dysgwyr, gan gynnwys y rhai o dan 18 oed, yn y Comisiwn**

Nodaf y bydd Bwrdd y Comisiwn yn cynnwys nifer o aelodau cyswllt, a fydd yn aelodau heb bleidlais o'r Comisiwn. Bydd yr aelodau hyn yn cynnwys: o leiaf ddau gynrychiolydd o'r gweithlu addysg drydyddol, un i gynrychioli'r gweithlu academaidd, ac un i gynrychioli'r gweithlu anacademaidd, a bydd y ddau'n cael eu penodi gan Weinidogion Cymru; un aelod o staff y Comisiwn; ac o leiaf un person a benodir gan Weinidogion Cymru i gynrychioli dysgwyr mewn addysg drydyddol.

Argymhellaf y dylai penodiad yr aelod i gynrychioli dysgwyr adleisio penodiad yr aelodau i gynrychioli'r gweithlu, ac felly y dylai fod gofyniad am o leiaf ddau gynrychiolydd dysgwyr: i gynrychioli dysgwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Awgrymaf hefyd ei bod yn ofynnol i'r Bwrdd gynnwys o leiaf un cynrychiolydd dysgwyr sydd rhwng 16-19 oed ar adeg eu penodi, er mwyn sicrhau y caiff y grŵp oedran hwn o ddysgwyr mewn addysg ôl-orfodol ei gynrychioli.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae paragraff 3.276 yn nodi y bydd gofyn i'r Comisiwn ystyried anghenion unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol ac a oes angen darparu cyfleusterau i gyflawni'r dyletswyddau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Serch hynny, byddai rhagor o fanylder yn cefnogi'r Comisiwn ymhellach i gyflawni hyn yn fwy effeithiol, a dylid ystyried a oes modd cysoni hyn yn fwy clir â'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol i adolygu digonolrwydd eu Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, fel sydd wedi'i nodi ym Mhennod Saith Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021. Mae Cod 2021 yn nodi, ym mharagraff 7.2, bod yn rhaid i awdurdod lleol fel rhan o'i waith adolygu ystyried i ba raddau y mae ei drefniadau yn ddigonol i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y plant a'r bobl ifanc mae'n gyfrifol amdanynt. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddo ystyried y ddarpariaeth y gellir ei threfnu'n rhesymol gan eraill (fel Sefydliadau Addysg Bellach a chyrff y GIG). Mae paragraff 7.3 yn nodi y dylid hefyd ystyried digonolrwydd darpariaeth dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg.

Awgrymaf y gellid cynnwys mecanweithiau yn y Bil a fyddai'n gofyn i'r Comisiwn ystyried yr adolygiadau hyn, fel bod ganddyn nhw'r gallu i ddefnyddio adnoddau'n strategol ledled Cymru i fynd i'r afael ag annigonolrwydd a nodir o ran argaeledd Darpariaeth Dysgu Ychwanegol fel y mae'n berthnasol i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth benodol o ddigonolrwydd Darpariaeth Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg ar gyfer y grŵp oedran hwn.

**Rhan 4: Prentisiaethau**

Cefnogaf nod y polisi o wneud y system brentisiaethau yn fwy hyblyg ac yn fwy ymatebol i'r galw. Rwy'n croesawu'n arbennig nad yw'r ymatebolrwydd hwn i alwadau cyflogwyr yn unig, ond i alwadau dysgwyr hefyd. Mae UCAS wedi nodi cynnydd sylweddol yn y diddordeb mewn prentisiaethau eleni, mewn data a rannwyd gyda Grŵp Polisi Cymru ym mis Tachwedd 2021. Roedd chwiliadau am brentisiaethau gradd ar wefan Canfod Gyrfaoedd UCAS i fyny 37%, i lefel ddigynsail o 1.5 miliwn yn y 12 mis diwethaf.

Serch hynny, rwy'n ansicr sut bydd galw dysgwyr yn cael ei asesu a'i ddehongli gan y Comisiwn, ac awgrymaf y dylid ystyried o bosibl a ddylid cynnwys mecanwaith i gipio hyn yn y Bil. Fel arall, gellid datblygu hyn ochr yn ochr â'r Bil: mae gan Fwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru rôl ar hyn o bryd i fynegi galwadau cyflogwyr a darparwyr, a gellid ystyried sut gall y Bwrdd hwn a gaiff ei arwain gan fenter, a'i lywio drwy fewnbwn gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, sydd hefyd yn cael eu harwain gan gyflogwyr i raddau helaeth, sicrhau yn effeithiol y caiff blaenoriaethau dysgwyr, ynghyd â chyflogwyr, eu casglu.

Ym mharagraff 3.342, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y gallai'r Comisiwn godi ffi am roi tystysgrifau, ond fel sy'n wir ar hyn o bryd, bydd Gweinidogion yn pennu uchafswm y ffi y gellir ei chodi am dystysgrifau. Croesawaf y ffaith bod mecanweithiau i gyfyngu'r ffi hon, ond nodaf y gallai'r ffi fod yn rhwystr

i rai dysgwyr os caiff y costau eu pasio ymlaen i brentisiaid. Erfyniaf am gymryd pob cam i sicrhau cydraddoldeb mynediad at brentisiaethau, ac awgrymaf y dylid nodi nad dysgwyr fydd yn talu'r ffi hon. Byddai hyn yn gyson â blaenoriaethau cyflawni 2016-2022 a nodwyd yn Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru 2017 sy'n datgan yn glir nod polisi ar gyfer 'Gwella Mynediad, Cydraddoldeb a Chyfle Cyfartal'.

**Rhan 5: Amddiffyn dysgwyr, gweithdrefnau cwynion ac ymgysylltu â dysgwyr**

Croesawaf y darpariaethau a fwriedir yn y Bil i alluogi'r Comisiwn i sefydlu trefniadau ar gyfer datblygu a chymeradwyo cynlluniau amddiffyn dysgwyr, ac i gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â hyn. Nodaf y manylir bod yn rhaid i'r Comisiwn ymgynghori wrth ddatblygu canllawiau, ac awgrymaf ehangu ar hyn i gynnwys gofyniad penodol i ymgynghori â dysgwyr wrth ddatblygu'r canllawiau hyn.

Croesawaf hefyd yr atebolrwydd i ddysgwyr sy'n rhan o sefydlu cynllun cwynion myfyrwyr sy'n galluogi atgyfeirio cwynion heb eu datrys i gorff annibynnol drwy Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Serch hynny, nodaf na fydd y chweched dosbarth mewn ysgolion yn dod o dan ddarpariaethau'r cynllun hwn ar y sail y bernir bod gweithdrefnau cwynion ysgolion yn ddigon cadarn. Serch hynny, nid yw gweithdrefnau cwynion mewn ysgolion fel arfer yn galluogi atgyfeirio cwynion heb eu datrys i gorff annibynnol. Yn hytrach, cynhelir gweithdrefnau apelio gan Gorff Llywodraethu'r ysgol, a dim ond mewn rhai amgylchiadau penodol y byddai ymchwiliad annibynnol yn berthnasol, er enghraifft mae gofyn i Gyrff Lywodraethu benodi ymchwilydd annibynnol i ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth ac mae'n rhaid i awdurdodau lleol fod â threfniadau ar waith ar gyfer hyn. Serch hynny, cododd y mesur diogelu penodol ar gyfer honiadau o gamdriniaeth drwy argymhellion Ymchwiliad Clywch, ac roedd mewn ymateb i fwlch blaenorol mewn atebolrwydd mewn perthynas â honiadau o gamdriniaeth – nid yw'n berthnasol i gwynion nad ydynt yn ymwneud â honiadau o gamdriniaeth.

Dangosodd gwaith achos a dderbyniwyd gan fy Ngwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor fod gan deuluoedd a phobl ifanc bryderon ynghylch diffyg annibyniaeth yng ngweithdrefnau cwynion cyffredinol ysgolion. Felly, argymhellaf y dylid rhoi ystyriaeth i gynnwys chweched dosbarth ysgolion yn y cynllun cwynion myfyrwyr, i sicrhau cydraddoldeb mewn atebolrwydd i ddysgwyr ym mhob lleoliad ôl-16.

Croesawaf sefydlu Cod Ymgysylltu â Dysgwyr fel amod gorfodol a pharhaus ac fel rhan o delerau ac amodau cyllido. Mae hwn yn fecanwaith pwysig i sicrhau bod dysgwyr yn rhan o benderfyniadau yn eu sefydliadau, ac mae'n ymwneud â darpariaeth strategol eu dysgu a'u profiadau addysgol ehangach, gan gynnwys llesiant. Anogaf y Bil i gynnwys gofyniad bod yn rhaid ymgynghori â dysgwyr wrth ddatblygu adolygiad o'r Cod, a hefyd bod yn rhaid ystyried safbwyntiau dysgwyr yng ngwaith monitro'r Comisiwn o effeithiolrwydd y Cod.

Yn gywir

**Yr Athro Sally Holland**

**Comisiynydd Plant Cymru**